Resuscitation Council UK

# Maniffesto'r Resuscitation Council UK: Achub bywydau rhag ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yng Nghymru

Er gwaethaf datblygiadau mewn gwyddoniaeth adfywio a mwy o CPR gan wylwyr, mae goroesi ar ôl ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty (OHCA) yn parhau i fod yn isel yng Nghymru, ac yn is na'r hyn a welir mewn gwledydd tebyg ar draws y byd.

Mae etholiad y Senedd sydd ar ddod yn gyfle hanfodol i gynyddu cyfraddau goroesi ataliad y galon yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau mewn adfywio. Ni ddylai ethnigrwydd person, ble mae'n gweithio, na ble mae'n byw bennu ei debygolrwydd o oroesi ataliad y galon, nac effeithio ar ansawdd y gofal maen nhw'n ei dderbyn. Gydag iechyd ac addysg wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, gall camau gweithredu wedi'u targedu adeiladu ar ei strategaeth OHCA 2017.

Bydd creu cymdeithas sydd wedi'i hyfforddi mewn CPR yn achub mwy o fywydau, yn gwella iechyd y cyhoedd, ac yn gwella gwydnwch cymunedol yn ystod argyfyngau. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn drwy adeiladu ar eu gwaith gydag Achub Bywyd Cymru a phartneriaid yn y gymuned adfywio. Mae'r maniffesto hwn gan Resuscitation Council UK (RCUK) yn esbonio sut y gellir cyflawni'r weledigaeth hon drwy amlinellu'r camau nesaf yn nhaith Cymru i wella yn dilyn OHCA.

## Blaenoriaethau ar gyfer gwella goroesi OHCA yn nhymor nesaf y Senedd:

**Pob goroeswr ataliad y galon i gael mynediad at gefnogaeth briodol, barhaus, bersonol:** Mae RCUK yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu llwybr ôl-ofal ffurfiol ar gyfer goroeswyr ataliad y galon yn nhymor nesaf y Senedd. Ein papur polisi, The weakest link: Recovering from cardiac arrest, yn nodi argymhellion ar gyfer y llywodraeth, Aelodau'r Senedd, systemau iechyd, a'r sector gwirfoddol, gan ddefnyddio Safon Ansawdd Goroeswyr RCUK fel glasbrint.

Nid yw goroesi yn unig yn ddigon. Mae llawer o oroeswyr yn cael eu gadael ag effeithiau corfforol a seicolegol hirdymor, ac yn aml yn anweledig. Yn wahanol i adsefydlu ar ôl strôc neu drawiad ar y galon, nid oes llwybr safonol yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai dull cyson a chynhwysfawr, o adsefydlu corfforol i gefnogaeth seicolegol, yn gwella ansawdd bywyd, yn lleihau y nifer o gleifion sy'n cael eu haildderbyn i'r ysbyty, ac yn helpu goroeswyr gael eu hannibyniaeth yn ôl. Mae hyn yn adeiladu ar adnoddau sydd eisoes yn bodoli, megis adnodd cefnogi yn dilyn rhyddhau ar ôl ataliad y galon RCUK, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Achub Bywyd Cymru ac a gefnogir gan GIG Cymru.

**Sicrhau bod hyfforddiant CPR yn cael ei gynnal mewn ysgolion:** Yn 2021, gosododd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) sgiliau achub bywyd o fewn canllawiau statudol, gan sicrhau bod addysg CPR yn rhan o'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae bron i 4 o bob 10 myfyriwr yn nodi nad ydyn nhw wedi derbyn hyfforddiant CPR yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae RCUK yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni'n llawn drwy ddarparu canllawiau clir i ysgolion, a chyfeirio at adnoddau addysgu am ddim. Yn ddiweddar, ymunodd cynghorydd cwricwlwm â Chanolfan Ymchwil Achub Bywyd Cymru ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i gefnogi ymgorffori ymwybyddiaeth o CPR a diffibrilio ar draws cwricwlwm yr ysgol dros y tair blynedd nesaf.

**Parhau i gefnogi 'Restart a Heart' drwy Achub Bywyd Cymru:** Bob mis Hydref, mae RCUK yn arwain mis Restart a Heart (RSAH) i gynyddu goroesi ar ôl OHCA trwy wella ymwybyddiaeth ac addysg CPR. Mae RCUK yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi Achub Bywyd Cymru i gyflawni gweithgareddau RSAH ledled Cymru, gan gynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu mewn ardaloedd â nifer uwch o achosion ataliad y galon a chymryd rhan yn RSAH Live, y fenter hyfforddi CPR ffrydio byw 24 awr dan arweiniad Save a Life for Scotland.

Mae Achub Bywyd Cymru, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhaglen genedlaethol GIG Cymru ac yn rhan o Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn chwarae rhan ganolog wrth gydlynu ymgysylltiad y cyhoedd gyda OHCA.

Mae RCUK hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Achub Bywyd Cymru yr adnoddau priodol i barhau â'u gwaith pwysig a'i ddatblygu ymhellach. Bydd buddsoddiad parhaus yn y rhaglenni hyn yn sicrhau bod cymunedau'n cael y cyfle i ddysgu sgiliau achub bywyd.

- **Parhau i gasglu a defnyddio data OHCA:** Mae data yn achub bywydau. Mae casglu data OHCA cynhwysfawr yn rheolaidd i nodi a thargedu ardaloedd gyda nifer uwch o achosion yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae cofrestrfeydd OHCA cenedlaethol yn sbarduno llwyddiant ledled y byd. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi a gwella casglu data o fewn fframweithiau presennol, megis cynllun OHCA 2017 Llywodraeth Cymru. Mae data cadarn yn galluogi dadansoddi, adrodd, meincnodi a gwelliant parhaus, gan sbarduno ymyriadau wedi'u targedu a chanlyniadau gwell ledled Cymru.

- **Cryfhau darpariaeth a chofrestru diffibrilwyr sydd ar gael i'r cyhoedd (PAD) ledled Cymru:** Mae diffibrilwyr PAD yn hanfodol yn y munudau cyn i ambiwlans gyrraedd, ond mae llawer ohonynt yn parhau i fod heb eu cofrestru, yn anhygyrch, neu nad ydynt ar gael 24/7. Mae RCUK yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Achub Bywyd Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a grwpiau cymunedol i wella darpariaeth PAD mewn ardaloedd â nifer uwch o achosion ataliad y galon, sicrhau bod pob dyfais wedi'i chofrestru ar The Circuit, a chynyddu nifer y diffibrilwyr sydd ar gael bob amser trwy sicrhau eu bod yn aros mewn cabinetau heb eu cloi. Bydd cryfhau rhwydwaith PAD Cymru yn lleihau anghydraddoldebau daearyddol mewn ymateb i argyfyngau ac yn gwella goroesi OHCA.

Resuscitation Council UK